# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (229)

**Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Hydref 2006**
**Amser: 2.00pm – 6.32pm**

Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

**Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf.

**..........................**

**3.01pm**

**Eitem 2 - Y Datganiad Busnes**

Gwrthododd mwy na 10 Aelod y Datganiad Busnes.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Datganiad Busnes:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 28 | 58 |

**Derbyniwyd y Datganiad Busnes.**

**..........................**

**3.13pm**

**Datganiad gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau: Buddsoddi yn Corus yn y dyfodol**

..........................

**3.48pm**
**Eitem 3 - Datganiad gan Brif Weinidog Cymru : Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau: Adolygiad o Bolisi Gwyddoniaeth**

..........................

**4.27pm**
**Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.**
**Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NDM3261 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006;

(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006; a

(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006.

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr i Gyrff Llywodraethu (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr i Gyrff

Llywodraethu (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006;

(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006; a

(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006.

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006;

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006;

(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006; a

(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006.

4. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006; a

(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O Blaid** | **Ymatal** | **Yn Erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

..........................

**4.28pm**
**Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.**

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2006 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 3, Rheol Sefydlog 25.14 a Rheol Sefydlog 24.25

**NDM3262 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.14 a Rheol Sefydlog 24.25:

1. Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2006, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006; a

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

..........................

## 4.28pm
## Eitem 6 - Dadl ar y Gyllideb ddrafft

**NDM3263 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 21.4, yn nodi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007-2008, 2008-2009 a 2009-2010 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a

Gwasanaethau Cyhoeddus ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 17 Hydref 2006.

## Cynigiwyd cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.15 i ymestyn y cyfarfod tan 6.30pm

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 1 | 1 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn); Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Mike German (Dwyrain De Cymru); John Marek (Wrecsam); Trish Law (Blaenau Gwent)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

"*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwrthod nodi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007-08, 2008-09 a 2009-10 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006 gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ei bod yn methu â gwneud darpariaeth ddigonol, neu'n methu â gwneud unrhyw ddarpariaeth o gwbl, ar gyfer y materion a ganlyn:*

*a) swm cyfwerth â'r arbedion effeithlonrwydd o 1% o holl gyllidebau dirprwyedig ysgolion y dylid ei ddychwelyd i'r ysgolion*

*b) adfer cyllideb Tir Mynydd i'r lefel a bennwyd yn 2005-06*

*c) cau'r bwlch cyllido mewn addysg uwch*

*d) cynnydd yn y gyllideb i'w dyrannu ar gyfer grantiau trafnidiaeth*

*e) cynnydd yn y gyllideb i'w dyrannu ar gyfer y Gwasanaeth Ambiwlans*

*f) cynnydd yn y lwfansau a delir i ofalwyr maeth*

*g) cymorth ariannol i orsafoedd radio cymunedol*

*h) cymorth ariannol i awdurdodau lleol ar gyfer goresgyn yr anawsterau y maent yn eu hwynebu o ran:*

*i. safleoedd tirlenwi*

*ii. costau cyfalaf gwella cartrefi gofal*

*i) cymorth trosiannol i awdurdodau lleol yn sgil diddymu'r rhyddhad ardrethi gwledig*

*j) cyflogi therapyddion ymddygiad gwybyddol*

*k) cymorth ariannol i ddarparu mannau chwarae ar gyfer plant anabl*

*l) cymorth ariannol i greu llochesi ar gyfer menywod sy'n dioddef trais yn y cartref yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny lle nad oes lloches o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd*

*m) cymorth ariannol pellach ar gyfer gwella seilwaith y rheilffyrdd*

*Yn unol â hynny, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarwyddo'r Gweinidog Cyllid i gyflwyno cyllideb ddrafft ddiwygiedig sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r materion a nodir yn (a) i (m) uchod."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 29 | 59 |

**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn mynegi pryder bod y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid wedi methu ag ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad yn ddigon cynnar yn y broses o lunio'r gyllideb ddrafft, a hynny er mwyn rhoi sylw i bryderon y gwrthbleidiau yn y gyllideb honno."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 29 | 59 |

**Derbyniwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn gresynu nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y cyllidebau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007-2010 o ran arian gan y Trysorlys yn ychwanegol at Barnett, a hynny at ddibenion arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd*."

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 29 | 59 |

**Derbyniwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn cydnabod o'r diwedd nad yw'r broses o lunio'r gyllideb, heb Bwyllgor Cyllid, yn dryloyw ac yn atebol."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 29 | 59 |

**Derbyniwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio yn ychwanegol at grant bloc y Trysorlys."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 29 | 59 |

**Derbyniwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gomisiynu ymchwil annibynnol i fformiwla gyllido deg ar gyfer Cymru a fydd yn seiliedig ar angen, ac i gyflwyno canfyddiadau'r ymchwil hon i'r Cynulliad Cenedlaethol."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 11 | 29 | 59 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Mae'r Cynulliad yn gresynu nad yw'r llywodraeth gyfredol, yn hanesyddol, wedi rhoi lle teilwng yn y gyllideb i'r maes tai.*"

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 7:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 29 | 59 |

**Derbyniwyd Gwelliant 7**

**Y cynnig wedi'i ddiwygio:**

***NDM3263 Sue Essex (Cardiff North)***

*1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwrthod nodi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007-08, 2008-09 a 2009-10 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006 gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ei bod yn methu â gwneud darpariaeth ddigonol, neu'n methu â gwneud unrhyw ddarpariaeth o gwbl, ar gyfer y materion a ganlyn:*

*a) swm cyfwerth â'r arbedion effeithlonrwydd o 1% o holl gyllidebau dirprwyedig ysgolion y dylid ei ddychwelyd i'r ysgolion*

*b) adfer cyllideb Tir Mynydd i'r lefel a bennwyd yn 2005-06*

*c) cau'r bwlch cyllido mewn addysg uwch*

*d) cynnydd yn y gyllideb i'w dyrannu ar gyfer grantiau trafnidiaeth*

*e) cynnydd yn y gyllideb i'w dyrannu ar gyfer y Gwasanaeth Ambiwlans*

*f) cynnydd yn y lwfansau a delir i ofalwyr maeth*

*g) cymorth ariannol i orsafoedd radio cymunedol*

*h) cymorth ariannol i awdurdodau lleol ar gyfer goresgyn yr anawsterau y maent yn eu hwynebu o ran:*

*i. safleoedd tirlenwi*

*ii. costau cyfalaf gwella cartrefi gofal*

*i) cymorth trosiannol i awdurdodau lleol yn sgil diddymu'r rhyddhad ardrethi gwledig*

*j) cyflogi therapyddion ymddygiad gwybyddol*

*k) cymorth ariannol i ddarparu mannau chwarae ar gyfer plant anabl*

*l) cymorth ariannol i greu llochesi ar gyfer menywod sy'n dioddef trais yn y cartref yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny lle nad oes lloches o'r fath yn*

*bodoli ar hyn o bryd*

*m) cymorth ariannol pellach ar gyfer gwella seilwaith y rheilffyrdd*

*Yn unol â hynny, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarwyddo'r Gweinidog Cyllid i gyflwyno cyllideb ddrafft ddiwygiedig sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r materion a nodir yn (a) i (m) uchod*

*2. Yn mynegi pryder bod y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid wedi methu ag ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad yn ddigon cynnar yn y broses o lunio'r gyllideb ddrafft, a hynny er mwyn rhoi sylw i bryderon y gwrthbleidiau yn y gyllideb honno.*

*3. Yn gresynu nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y cyllidebau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007-2010 o ran arian gan y Trysorlys yn ychwanegol at Barnett, a hynny at ddibenion arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd.*

*4. Yn cydnabod o'r diwedd nad yw'r broses o lunio'r gyllideb, heb Bwyllgor Cyllid, yn dryloyw ac yn atebol.*

*5. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio yn ychwanegol at grant bloc y Trysorlys.*

*6. Mae'r Cynulliad yn gresynu nad yw'r llywodraeth gyfredol, yn hanesyddol, wedi rhoi lle teilwng yn y gyllideb i'r maes tai.*

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 29 | 59 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio**

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.32pm**

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 25 Hydref 2006

E P Silk

Clerc y Cynulliad

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 24 Hydref penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6 nad oes angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

- Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006

- Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006

- Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006

- Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006

- Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006

- Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006

- Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006

- Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2006